Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

National Assembly for Wales
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Aled Roberts

Comisiynydd y Gymraeg

16 Ionawr 2020

Annwyl Aled,

Yn ei gyfarfod ar 8 Ionawr, trafododd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020/21 â Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn y cyfarfod gwnaethom drafod y dyraniadau cyllideb ar gyfer cefnogi a hybu'r Gymraeg yn gyffredinol ac ar gyfer eich gwaith yn benodol.

Byddwn yn ddiolchgar am eich sylwadau ar gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer ariannu cefnogaeth i'r Gymraeg yn y tymor hir ac yn y flwyddyn i ddod. Roedd aelodau'r Pwyllgor yn pryderu y gallai prif ffrydio cyllid ar gyfer yr iaith ar draws portffolios Gweinidogol arwain at ddiffyg tryloywder yn y gyllideb ddrafft os na fydd gwybodaeth am y cyllid hwn ar gael. Tybed a oes gennych unrhyw bryderon cyffelyb?

Trafododd y Gweinidog y setliad cyllido ar gyfer eich swyddfa a'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth a luniwyd ar gyfer eich sefydliad chi a Llywodraeth Cymru er mwyn lleihau dyblygu. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi barn ynghylch a yw'r dyraniadau cyfalaf a refeniw yn y gyllideb ddrafft yn caniatáu i'ch sefydliad gyflawni ei rwymedigaethau ar gyfer 2020-21.

Er mwyn bwrw ymlaen â'n trafodaethau ar y Gyllideb Ddrafft, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ateb erbyn 30 Ionawr, gydag ymddiheuriadau am yr amserlen dynn.

Yn gywir,



Bethan Sayed

Cadeirydd y Pwyllgor

Aled Roberts
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Bethan Sayed AC
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

31 Ionawr 2020

Annwyl Bethan

Cyllideb y Gymraeg

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Ionawr yn gofyn am fy sylwadau ar gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer ariannu cefnogaeth i'r Gymraeg.

Gofynnoch ddau gwestiwn penodol, sef fy marn am ddiffyg tryloywder posibl yn y gyllideb os caiff cyllid y Gymraeg ei phrif ffrydio ar draws adrannau Gweinidogol y Llywodraeth a hefyd fy marn ar ddyraniad ariannol fy swyddfa ar gyfer 2020-21.

Mae dwy brif ffynhonnell i ariannu cefnogaeth i'r Gymraeg o fewn cyllideb y Llywodraeth ar hyn o bryd, sef cyllid 'y Gymraeg' o fewn prif grŵp gwariant (MEG) Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Gymraeg a chyllid 'y Gymraeg mewn Addysg' o fewn MEG Addysg. Caiff cyllid 'y Gymraeg' ei rhannu ymhellach i linell gwariant Comisiynydd y Gymraeg a llinell 'y Gymraeg' sydd o dan reolaeth is-adran y Gymraeg.

Credaf bod y llinellau gwariant hyn yn agored a thryloyw. Fe rannodd y Llywodraeth bapur tystiolaeth gyda'r Pwyllgor Diwylliant cyn ymddangosiad y Gweinidog yn gynharach eleni oedd yn egluro sut caiff y llinellau gwariant hyn eu defnyddio. Rwyf innau hefyd wrth gwrs yn atebol am linell gwariant fy swyddfa ac mae disgwyliad arnaf i gyhoeddi adroddiad blynyddol ac ymddangos o flaen y Pwyllgor yn flynyddol i ateb cwestiynau arno.

Mae anhawster craffu a monitro yn gallu codi fodd bynnag pan fo gwariant ar y Gymraeg yn digwydd y tu allan a thu hwnt i'r llinellau gwariant penodol hyn. Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor, fe gyfeiriodd y Gweinidog nifer o weithiau at brif ffrydio'r Gymraeg ar draws

adrannau'r Llywodraeth. Rwy'n cytuno'n llwyr gyda hi bod hynny'n amcan bwysig. Mae strategaeth Cymraeg 2050 yn perthyn i'r Llywodraeth yn ei gyfanrwydd nid i is-adran y Gymraeg yn unig. Mae'n hanfodol felly bod Gweinidogion ac adrannau eraill yn cymryd eu cyfrifoldebau tuag at y Gymraeg o ddifrif ac yn chwilio am gyfleoedd i hybu a datblygu'r Gymraeg yn eu cynlluniau ac wrth ddyrannu cyllid.

Yn ei thystiolaeth, fe gyfeiriodd y Gweinidog at rai enghreifftiau o brif ffrydio megis yr arian cyfalaf i ddatblygu ysgolion a gwaith gyda Dirprwy Weinidog yr Economi yn edrych ar iaith ac economi. Er mwyn gwella tryloywder yn y dyfodol, gall fod yn ddefnyddiol i'r Llywodraeth ystyried rhoi mwy o eglurhad ynghylch pa brosiectau mawr y tu allan i linellau gwariant y Gymraeg fydd yn cyfrannu at y Gymraeg ac eglurhad o'r gwariant tebygol.

Y prif gwestiwn sy'n codi o'r gyllideb hon fodd bynnag yw lefel y gwariant yn gyffredinol. Mae'r Gweinidog wedi egluro bod angen iddi sicrhau ei bod yn gwario ar y pethau cywir o ystyried beth yw nodau strategaeth Cymraeg 2050. Mae hynny'n nod clodwiw wrth gwrs. Ond nid oes cynnydd cyffredinol wedi bod yng nghyllideb y Gymraeg, felly mae'n rhaid gofyn a yw'n bosibl i Weinidog y Gymraeg a Llywodraeth Cymru gyflawni strategaeth uchelgeisiol heb gynnydd yng nghyllideb y Gymraeg. Mae'n ymddangos i mi nad yw lefel y gwariant ar y Gymraeg ar hyn o bryd yn cyd-fynd ag uchelgais Cymraeg 2050 ac mae risg bod diffyg buddsoddi ychwanegol yn mynd i danseilio ymdrechion i gyflawni'r strategaeth.

I droi at eich ail gwestiwn am gyllideb fy swyddfa, mae'r gyllideb ddrafft yn clustnodi dau swm ychwanegol ar gyfer 2020-21. Mae swm o £50,000 cyllid refeniw wedi ei glustnodi i gefnogi cynnydd mewn costau staffio a £385,000 o gyllid cyfalaf wedi ei glustnodi i drawsnewid systemau TG fy swyddfa. Yn amlwg rwy'n croesawu'r symiau hyn, ond fel y gwyddoch fe wnes i amlinellu sefyllfa gyllidebol anodd iawn yn y Pwyllgor y llynedd. Sefyllfa ariannol a oedd yn golygu bod swyddi'n aros yn wag a bod fy nghronfa wrth gefn yn debygol o ostwng islaw y targed sydd wedi ei gytuno mewn polisi. Bydd y cyllid cyfalaf ar gyfer systemau TG yn mynd tuag at foderneiddio ac uwchraddio systemau sydd wedi dioddef o ddiffyg buddsoddiad dros y blynyddoedd, yn bennaf oherwydd toriadau yn y gyllideb. Rwy'n gobeithio bydd hynny'n arwain at arbedion eraill ac yn rhyddhau cyllid yn y tymor canol / hir.

Serch hynny, ni fydd y symiau ychwanegol hyn yn galluogi fy swyddfa i weithredu prosiectau a gynigiwyd yn fy amcangyfrif ariannol i'r Llywodraeth. Roeddwn wedi gwneud ceisiadau am gyllid twf ar gyfer prosiectau yn y meysydd canlynol:

- Cynyddu defnydd o wasanaethau Cymraeg
- Defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol
- Cefnogaeth i'r sectorau iechyd ac awdurdodau lleol
- Ymchwil ar gyfer gwaith polisi ac i gefnogi fy adroddiad 5 mlynedd nesaf
- Rhagor o gefnogaeth a chymorth i fusnesau ac elusennau

Heb gyllid ychwanegol, mae'n annhebygol byddwn yn gallu gweithredu'r prosiectau hyn yn 2020/21.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Felly i grynhoi, mae dyraniad ariannol fy swyddfa yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2020/21 yn fy ngalluogi i ddelio â materion penodol cynnydd costau staffio a thrawsnewid TG, ond ni fydd yn fy ngalluogi i lenwi'r holl swyddi gwag sydd yn y strwythur nac i fuddsoddi ymhellach mewn prosiectau newydd a fyddai'n cyfrannu tuag at Cymraeg 2050.

Yn gywir

Aled Roberts
Comisiynydd y Gymraeg